**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED A TAI**
**12 GORFFENNAF 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Helen Brown (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Gillian Brockley, Tina Claydon, Geoff Collett, Rosetta Dolphin, David Evans, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Kevin Rush a Linda Thew

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Marion Bateman (ar ran Dale Selvester) a Chrissy Gee (ar ran Pam Banks)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Dave Hughes a Billy Mullin fel arsylwyr

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Sean Bibby (Aelod Cabinet Tai ac Adfywio); Prif Swyddog (Tai a Chymunedau); Uwch Reolwr (Tai, Lles a Chymunedau); Rheolwr Gwasanaeth (Refeniw a Chaffael) a Rheolwr Gwasanaeth - Asedau Tai

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Etholiadol

## 18. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 19. COFNODION

Amlygwyd bod enw'r Cynghorydd Geoff Collett wedi'i sillafu'n anghywir ar dudalen 8 y cofnodion.

Cynigwyd y cofnodion gan y Cynghorydd David Evans ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Linda Thew.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad a restrir uchod, cymeradwyo'r cofnodion a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

## 20. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y rhaglen gwaith i'r dyfodol bresennol i'w hystyried. Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r Prif Swyddog a'r Uwch Dîm Rheoli dros yr haf a byddai'r Hwylusydd yn cysylltu â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol fwy cyflawn i'r Pwyllgor ym mis Medi.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin at y camau a oedd heb eu cymryd a mynegodd bryderon ynglŷn â'r amser yr oedd yn ei gymryd i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ymateb i lythyr a anfonwyd atynt ym mis Chwefror.

Awgrymwyd y dylid anfon llythyr at yr holl ASau lleol er mwyn i'r mater gael ei godi gyda'r Gweinidog.

Gofynnodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson i eitem ynglŷn â pharcio ar eiddo'r Cyngor gael ei threfnu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

Cafodd yr argymhellion, fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd David Evans a'u heilio gan y Cynghorydd Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 21. COSTAU BYW A DIWYGIO LLES

Rhoddodd yr Uwch Reolwr (Tai, Lles a Chymunedau) ddiweddariad ar yr effeithiau sy'n parhau gyda diwygiadau lles a thrafododd y gwaith parhaus i liniaru'r gwaith sy'n parhau i gefnogi aelwydydd trigolion Sir y Fflint. Ychwanegodd fod treth ystafelloedd gwely yn dal i gael effaith yn Sir y Fflint ynghyd â'r diffyg cartrefi llai sydd ar gael i drigolion sy'n dymuno symud i gartrefi llai hefyd.

Trafododd y canlynol hefyd, fel yr amlinellir yn yr adroddiad:-

- Uchafswm Budd-daliadau
- Cynllun Cymorth Costau Byw
- Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf 2022/23
- Cynllun Cymorth Biliau Ynni
- Taliadau Tanwydd Amgen
- Prydau Ysgol am Ddim Cyffredinol i Ysgolion Cynradd
- Grant Hanfodion Ysgol
- Cymorth Lles
- Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai (DHP)

Aeth yr Uwch Reolwr (Tai, Lles a Chymunedau) ymlaen i drafod cymhwyster a chyllid ar gyfer prydau ysgol am ddim a'r ffordd y maent yn gweithio gydag ysgolion i roi cyhoeddusrwydd i'r grant amddifadedd disgyblion, a hefyd sut y byddent yn ceisio awtomeiddio taliadau mewn perthynas â'r grant gwisg ysgol ar gyfer pob blwyddyn ysgol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Evans at Gynllun Tanwydd y Gaeaf a mynegodd ei bryderon nad oedd pob preswylydd yn manteisio ar y cynllun. Gofynnodd faint o breswylwyr a oedd yn dal heb drefnu i dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Tai, Lles a Chymunedau) fod y tîm yn rhoi anogaeth gadarnhaol i aelwydydd i fanteisio ar y cynllun, gyda rhai'n cael eu credydu'n ôl drwy eu cyfrifon Treth y Cyngor. Ychwanegodd mai Sir y Fflint oedd

â'r nifer fwyaf o bobl yng Nghymru yn manteisio ar y cynllun ac anogodd y Cynghorwyr i rannu ffyrdd o ymgysylltu â thenantiaid.

Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin, dywedodd yr Uwch Reolwr (Tai, Lles a Chymunedau) nad oedd yn meddwl bod modd olrhain hawlwyr DHP mewn perthynas â threth ystafelloedd gwely dros y cyfnod o amser a awgrymwyd. O ran prydau ysgol am ddim, cytunodd y gallai'r broses hawlio fod yn anodd a dywedodd fod angen codi ymwybyddiaeth o sut mae hyn yn effeithio ar ysgolion ac ategodd pa mor bwysig oedd gwneud hawliad.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn llwyr gefnogi'r Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai a fydd, meddai hi, yn parhau hyd y gellir rhagweld.

Ychwanegodd y Cynghorydd Bernie Attridge ei sylwadau gan ddweud bod yr adroddiad yn dda ond na ddylai'r Cyngor golli golwg ar yr holl bobl ddiamddiffyn ledled Sir y Fflint sy'n cael eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw a diwygio’r gyfundrefn les.

Cafodd yr argymhellion, fel y’u hamlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Tina Claydon a’u heilio gan y Cynghorydd David Evans.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi’r gwaith parhaus o reoli’r effeithiau y mae diwygio’r gyfundrefn les wedi’i gael, ac yn parhau i’w gael, ar rai o’r preswylwyr mwyaf diamddiffyn; a

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r mesurau cymorth a roddwyd ar waith drwy Lywodraeth Cymru i liniaru'r argyfwng costau byw.

## 22. INCWM RHENT TAI

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth (Refeniw a Chaffael) amlinelliad o’r adroddiad briffio a gyhoeddir bob chwarter ar Renti Tai. Esboniodd yr anawsterau a gafwyd yn ystod y pandemig, effeithiau'r argyfwng Costau Byw a Chwyddiant.

Roedd casglu Ôl-ddyledion Rhent ar gyfer 2022/2023 wedi bod yn sefyllfa ôl-ddyledion rhent cronnus o ychydig dros £2 filiwn. Roedd cynnydd o £124,000 yn yr Ôl-ddyledion Rhent ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y Rheolwr Gwasanaeth (Refeniw a Chaffael) yn falch o adrodd bod ffigwr yr ôl-ddyledion terfynol ar ddiwedd blwyddyn 2022/23 yn is na'r ffigwr a osodwyd yn yr adroddiad blaenorol i graffu. Roedd yn bwysig nodi bod 20% o denantiaid wedi mynd i ôl-ddyledion, ond roedd y rhan fwyaf yn parhau i dalu ar amser.

Ychwanegodd fod nifer yr achosion o droi tenantiaid allan o’u tai wedi gostwng yn sylweddol gyda dim ond 2 achos o hynny’n digwydd, ac ailadroddodd fod pob dull posibl o ymgysylltu wedi'i ddefnyddio i osgoi achosion o droi allan. Ychwanegodd hefyd fod y Cyngor bob amser yn ymdrechu i wneud y mwyaf o gasgliadau gan barhau i fod yn deg ar yr un pryd.

Mewn perthynas â diddymu dyledion, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Refeniw a Chaffael) eu bod yn is na'r blynyddoedd blaenorol ac ychwanegodd fod rhai yn anochel os oedd unigolion wedi marw neu i'r rheiny a oedd yn destun gorchmynion rhyddhau o ddyled.

Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaeth (Refeniw a Chaffael) hefyd y cynllun peilot incwm rhent sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd a oedd yn darparu ffordd arall o weithio er mwyn cael perthynas waith agosach gyda thenantiaid.

Dywedodd y Cynghorydd David Evans, er yr ymddengys yn yr adroddiad bod lefelau ôl-ddyledion rhent rheoledig yn is, roedd yn pryderu am ôl-ddyledion y rheiny yn y braced o £2500 i £5000 a oedd yn ymddangos i fod wedi cynyddu. Dywedodd ei bod yn ymddangos bod ôl-ddyledion yn gwaethygu ar ôl croesi ryw drothwy. Gofynnodd hefyd beth oedd rhwymedigaethau'r Cyngor ar ôl i denant gael ei droi allan, a oedd dyletswydd ar y Cyngor i'w cartrefu, beth oedd lefel eu dyled ac a oedd dadansoddiad ar gael o'r rhesymau dros eu troi allan. Dywedodd hefyd fod y cynllun peilot a amlinellwyd yn adran 1.09 o'r adroddiad yn swnio'n ddiddorol ac yr hoffai gael rhagor o wybodaeth am y cynllun.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth (Refeniw a Chaffael) fod y tabl o ôl-ddyledion rhent yn aml yn anodd ei esbonio gan fod tenantiaid yn aml yn symud i mewn ac allan o'r gwahanol gategorïau, sy'n ei gwneud yn anoddach i'w holrhain, ac ailadroddodd fod y Cyngor yn ymgysylltu'n gynnar. Ychwanegodd nad oedd y Cyngor yn olrhain symudiadau tenantiaid ar ôl eu troi allan, ond dywedodd nad oedd y tenantiaid blaenorol hynny yn cael eu hailgartrefu gyda'r Cyngor ar hyn o bryd. Awgrymodd y dylai gwybodaeth am y cynllun peilot incwm rhent gael ei hadrodd i'r Pwyllgor maes o law.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at nifer y tenantiaid mewn ôl-ddyledion rhent o fwy na £5,000 a gofynnodd faint o'r tenantiaid hynny oedd yn destun gorchmynion llys ac yn talu swm bach o'r ôl-ddyledion ar ben eu rhent wythnosol. Gofynnodd hefyd a oedd trothwy pan fyddai tenantiaid yn cael eu cymryd i'r llys i adennill yr ôl-ddyledion rhent. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Refeniw a Chaffael) fod y tenantiaid hynny wedi bod i'r llys a'u bod ar gynllun talu i adennill y ddyled. Esboniodd nad oedd ffigwr mympwyol ar gyfer mynd â thenantiaid i'r llys a bod y Cyngor yn canolbwyntio ar ymgysylltu yn lle hynny. Roedd tenantiaid yn cael gorchymyn llys pan nad oeddent yn ymgysylltu â'r Cyngor i leihau'r ddyled.

Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau ar lefel yr ôl-ddyledion rhent ac amlinellodd y buddsoddiad sylweddol y gellid ei wneud i'r Cyfrif Refeniw Tai (HRA) pe bai ôl-ddyledion rhent yn cael eu lleihau. Gofynnodd a fyddai modd darparu crynodeb mewn adroddiadau yn y dyfodol o'r tenantiaid hynny mewn ôl-ddyledion rhent o fwy na £5,000, gan amlinellu faint oedd yn destun gorchmynion llys a faint sy'n aros i gael eu troi allan ac ati.

Gwnaeth y Cynghorydd Bernie Attridge sylw ar nifer y tenantiaid mewn ôl-ddyledion rhent o fwy na £5,000. Er bod y Cyngor yn gwneud mwy i ymgysylltu â thenantiaid cyn gynted ag y maent yn mynd i ôl-ddyledion i atal y swm rhag cynyddu, teimlai fod nifer y tenantiaid mewn ôl-ddyledion allan o reolaeth. Mynegodd bryder ynghylch yr ymateb a roddwyd i'r Cynghorydd Evans nad oedd tenantiaid sydd wedi'u troi allan yn cael eu holrhain a theimlai y dylai hynny fod yn digwydd er mwyn sicrhau bod yr ôl-ddyledion yn cael eu casglu. Cytunodd â'r

sylwadau a wnaed gan y Cadeirydd ynghylch y buddsoddiad sylweddol y gellid ei wneud i'r Cyfrif Refeniw Tai a'r cymorth ariannol y gellid ei ddarparu i denantiaid a oedd yn cael trafferthion ariannol ond a oedd yn parhau i dalu eu rhent ar amser wythnos ar ôl wythnos. Teimlai y dylai'r Cyngor fod yn mynd â thenantiaid i'r llys os nad oeddent yn ymgysylltu ac yn peidio â thalu eu rhent a gwnaeth sylwadau ar y rhwyd ddiogelwch sydd mewn lle ar gyfer y tenantiaid hynny na allent dalu. Gofynnodd a fyddai modd darparu gwybodaeth am ad-daliadau mewn adroddiadau yn y dyfodol er mwyn amlinellu sut yr eir ar ôl tenantiaid sydd wedi gwneud difrod sylweddol i'w heiddo cyn symud er mwyn adennill y costau i ddod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd.

Anghytunodd y Rheolwr Gwasanaeth (Refeniw a Chaffael) gyda'r sylw bod yr ôl-ddyledion rhent allan o reolaeth ond dywedodd fod sawl her am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad. Awgrymodd y dylid cyflwyno adroddiad ar wahân ar ad-daliadau yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol ac eglurodd, er bod ad-daliadau yn rhan o'r Cyfrif Refeniw Tai at ddibenion cyfrifyddu, mae system anfonebu mewn lle i ymdrin ag ailgodi tâl a sicrhaodd ef eu bod yn cael eu dilyn yn gadarn ac mewn rhai achosion bod hyn trwy achos Llys Sirol trwy CCJ. Eglurodd ei ymateb i'r Cynghorydd Evans ynglŷn ag olrhain tenantiaid a oedd wedi'u troi allan ac eglurodd fod dyled heb ei thalu yn cael ei chasglu lle bo hynny'n bosibl a bod trefniadau olrhain yn eu lle ar gyfer y tenantiaid hynny.

Dywedodd y Cynghorydd Marion Bateman na ddylai unrhyw denant fod mewn dyled o £5,000 neu fwy i'r Cyngor a gofynnodd ar ba adeg y byddai tenantiaid yn dechrau talu mwy ar ben eu rhent. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Refeniw a Chaffael) fod y systemau sydd ar waith yn olrhain taliadau rhent tenantiaid ac yn tynnu sylw at y ffaith bod tenant wedi methu taliad sy'n galluogi cysylltu â'r tenantiaid hynny cyn gynted â phosibl. Roedd y Cyngor yn gwneud yr hyn a allai i liniaru ac atal lefelau ôl-ddyledion rhent rhag symud i'r band nesaf, ond roedd hyn yn her, yn enwedig i'r tenantiaid hynny â budd-daliadau untro a chredyd cynhwysol, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Bateman ynghylch troi tenantiaid allan, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Refeniw a Chaffael) fod angen i'r Cyngor gael cydbwysedd rhwng ei gyfrifoldeb fel landlord cymdeithasol a pheidio â throi tenantiaid allan i fod yn ddigartref.

Cafodd yr argymhellion, fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Geoff Collett a'u heilio gan y Cynghorydd David Evans.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf ar gyfer casgliadau rhent yn 2022-23, fel y nodir yn yr adroddiad.

## 23. POLISI RHEOLI TAI

Rhoddodd yr Uwch Reolwr (Tai, Lles a Chymunedau) ddiweddariad ar Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru a'r newidiadau presennol yn y ddeddfwriaeth, gyda'r prif un yn ymwneud â'r newid enw o fod yn 'gytundeb tenantiaeth' i'r term newydd sef 'contract' ac o 'denantiaid' i 'ddeiliaid contract'. Roedd sioeau teithiol yn dal i gael eu cynnal i roi gwybod i ddeiliaid contract am y newidiadau a

byddent yn parhau drwy gydol yr haf, gyda sesiynau gweithdy ar gael yn hygyrch i ddeiliaid contract a ofynnodd amdanynt.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Polisi newydd yn dal ar ffurf drafft i symleiddio'r broses. Roedd y broses ymgynghori ar y gweill, a chroesawodd yr Uwch Reolwr (Tai, Lles a Chymunedau) gyfraniad yr Aelodau.Byddai'r Polisi'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ddiweddarach yn y flwyddyn i'w gymeradwyo.

Cafodd yr argymhellion, fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd David Evans a'u heilio gan y Cynghorydd Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r polisi Rheoli Tai.

## 24. POLISI YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr (Tai, Lles a Chymunedau) yr adroddiad i roi trosolwg o'r newidiadau a wnaed i'r Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Roedd y Cyngor wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd yr effaith a gafodd ar denantiaid. Roedd y Polisi yn adlewyrchu arfer gorau ac yn diogelu hawliau deiliaid contract yn ogystal â lleihau'r risg i'r Cyngor am beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth briodol. Amlinellodd yr Uwch Reolwr (Tai, Lles a Chymunedau) mai un o'r rhannau allweddol oedd y broses adrodd gywir trwy ffonio 101 i sicrhau bod yr holl dystiolaeth yn cael ei chofnodi'n gywir.

Gwnaeth yr Aelod Cabinet Tai ac Adfywio sylwadau ar yr heriau o geisio cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt a'r caledi a wynebir ganddynt. Anogodd drigolion i adrodd am achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn sicrhau y gellid cymryd camau gorfodi.

Cafodd yr argymhellion, fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd David Evans a'u heilio gan y Cynghorydd Tina Claydon.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

## 25. RHEOLI CARTREFI GWAG

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Asedau Tai y ffigyrau allweddol a'r gweithgareddau allweddol yn ôl y Cynllun Gweithredu ar Gartrefi Gwag, fel yr amlinellir yn y nodyn briffio.

Amlinellodd nifer y tai gwag newydd a'r rhai oedd wedi'u cwblhau a dywedodd fod 30 eiddo wedi'u cwblhau yn barod i'w dyrannu.

O ran y gweithgareddau allweddol a oedd yn cael eu cwblhau yn erbyn y cynllun gweithredu ar gartrefi gwag a'r camau nesaf, amlinellwyd y canlynol gan y Rheolwr Gwasanaeth:-

- Dyrannu gwaith i gontractwyr sydd newydd eu comisiynu yn unol â'u gallu i gyflawni;
- Cyfarfodydd cynnydd wedi'u trefnu dros y 12 mis nesaf i fonitro perfformiad ac ansawdd;
- Trefnu cyfarfodydd Perfformiad Contractwyr ar gyfer y 12 mis nesaf - i fonitro amseroedd targed, ansawdd y gwaith, capasiti, a pherfformiad cyffredinol;
- Byddai pob cyfarfod yn cael ei gofnodi i werthuso a darparu tystiolaeth barhaus o safonau perfformiad.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Asedau hefyd fod y Cyngor wedi cael £585,000 o gyllid y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP) i'w ddefnyddio tuag at eiddo gwag mawr.

Roedd y Cynghorydd David Evans yn croesawu nifer yr eiddo a gwblhawyd yn barod i'w dyrannu a dywedodd bod hynny'n gadarnhaol. Dywedodd ei fod, ynghyd â'r Cynghorydd Ron Davies, wedi cyfarfod â phreswylwyr yn ddiweddar a gofynnodd pam na ellid cwblhau eiddo llai i'w gosod yn gynt. Ailadroddodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Asedau, mai'r ôl-groniad hanesyddol oedd y rheswm gydag 1 contractwr yn unig yn y gorffennol, ond cadarnhaodd y dylai gwaith ar eiddo gael ei gwblhau'n gynt gyda nifer y contractwyr newydd sydd ganddynt. Ychwanegodd y dylai Aelodau ddisgwyl cyfnod o 6 – 8 wythnos ar gyfer gwaith mawr.

Yn dilyn awgrym gan y Cynghorydd Evans, cytunwyd y dylid dosbarthu'r nodyn briffio rheoli eiddo gwag i'r Pwyllgor yn ystod gwyliau mis Awst.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Marion Bateman, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Asedau fod ansawdd a safon y gwaith gan y contractwyr newydd wedi bod yn dda ac y byddent yn parhau i gael eu monitro.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Linda Thew, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Asedau y byddai'r contractwyr yn parhau i weithio drwy wyliau'r haf.

Argymhellodd y Cynghorydd David Evans fod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei nodi. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Tina Claydon.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 26. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) yr adroddiad i adolygu'r lefelau cynnydd o ran cyflawni gweithgareddau a lefelau perfformiad a nodir yng Nghynllun y Cyngor. Dywedodd fod Cynllun y Cyngor 2022/23 wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2022. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno crynodeb o berfformiad cynnydd yn erbyn blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a nodwyd ar

gyfer 2022/23 ar ddiwedd y flwyddyn (Ch4) sefyllfa sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai.

Adroddodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) ar y gweithgaredd oedd yn dangos statws coch (RAG) ar gyfer perfformiad presennol yn erbyn y targed ynghyd â gwybodaeth am y dangosyddion perfformiad (DP) / mesurau oedd yn dangos statws coch (RAG) ar gyfer perfformiad yn erbyn y targed a osodwyd ar gyfer 2022/23.

Gofynnodd y Cynghorydd Bernie Attridge y cwestiynau canlynol:-

- Mewn perthynas â nifer yr ymgeiswyr ar y gofrestr tai cyffredin, a allai swyddogion gadarnhau a oedd 237 o ymgeiswyr newydd ar gyfer 2022/23.
- A ellid darparu mwy o wybodaeth am y data boddhad cwsmeriaid ar gyfer y Gofrestr Tai o 52%
- A yw'r partneriaid tai yn darparu'r lefel o wasanaeth a ddisgwylir i'r Cyngor fel rhan o'u contract
- Mewn perthynas â’r cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio cartrefi’r Cyngor, pryd yr ymgynghorir â’r Aelodau ar y strategaeth ddatgarboneiddio ddrafft
- Mewn perthynas â sicrhau bod stoc tai’r Cyngor yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ac wedi cyflawni isafswm sgôr effeithlonrwydd ynni SAP o 65, sut y cyflawnwyd y targed o 100% a gwblhawyd, o ystyried nifer yr eiddo gwag
- Beth oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r oedi wrth symud ymlaen â'r System Caffael Deinamig newydd gyda Chyngor Sir Ddinbych
- Mewn perthynas â gwrando ar denantiaid a gweithio gyda nhw i wella ein gwasanaethau, ein cartrefi a'n cymunedau, yr oedd tenantiaid y Cyngor yn gweithio gyda nhw
- Pa denantiaid gymerodd ran yn y cyrsiau digidol a ddarparwyd gan Goleg Cambria
- Mewn perthynas â gweithio gyda phartneriaid cymdeithasau tai i adeiladu tai cymdeithasol newydd ac eiddo fforddiadwy ychwanegol, a yw Aelodau Cabinet Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn
- A ellid darparu rhagor o wybodaeth am y datrysiadau digidol ar gyfer Swyddogion Tai

Dywedodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) nad oedd nifer yr ymgeiswyr ar y gofrestr tai cyffredin yn sefydlog ond dywedodd fod cynnydd bach wedi bod yn y nifer ar gyfer 2022/23. O ran yr arolwg boddhad cwsmeriaid, byddai'n gofyn i'r Rheolwr Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai ac Atal) ddarparu gwybodaeth ar yr ymateb o 52% i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod. Cadarnhaodd fod partneriaid tai’r Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni eu gofynion, a’r unig faterion oedd yn ymwneud â chyfateb y stoc gydag achosion unigol. Cadarnhaodd hefyd fod yr Aelod Cabinet dros Dai ac Adfywio yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda phartneriaid tai ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Asedau fod strategaeth ddatgarboneiddio ddrafft wedi'i datblygu ond bod y Cyngor yn aros i Lywodraeth Cymru ryddhau safonau SATC 2 a fyddai'n llywio'r strategaeth. Cynigiwyd y byddai gweithdy i Aelodau yn cael ei drefnu i amlinellu'r strategaeth ddatgarboneiddio ddrafft pan fo hynny'n briodol. Esboniodd hefyd fod y Cyngor

yn parhau i dargedu eiddo nad oedd yn cyrraedd sgôr 65 y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) drwy waith gwella amrywiol. Dangoswyd y ganran a gwblhawyd fel 100% yn yr adroddiad gan fod nifer fach o eiddo nad oedd yn cyrraedd y safonau wedi'u dosbarthu fel methiannau derbyniol.

Eglurodd yr Uwch Reolwr (Tai, Lles a Chymunedau) er bod gwaith yn parhau ar y fframwaith System Gaffael Deinamig gyda Chyngor Sir Ddinbych, rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor nad oedd hyn wedi atal parhad y gwaith ar addasiadau o gwbl. Cyfeiriodd at yr adroddiadau Polisi blaenorol a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod a'r ymgysylltu a wnaed gyda thenantiaid yn unol â newidiadau Polisi arfaethedig. Roedd nifer o sesiynau ymgysylltu ychwanegol wedi'u cynnal gyda thenantiaid er mwyn cynyddu ymgysylltiad a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod ymgysylltu wedi symud ymlaen yn sylweddol ers mis Ebrill 2023. Amlinellodd fel rhan o brosiect Croeso Cynnes a gynhaliwyd o fis Tachwedd 2022 i fis Mawrth 2023 fod trigolion wedi mwynhau mynychu'r cyrsiau digidol a ddarperir gan Goleg Cambria. Roedd offer hefyd wedi'i brynu i ddarparu mynediad Wi-Fi ar gyfer hyd at 16 o ddyfeisiau mewn ardaloedd cymunedol. Dywedodd hefyd, trwy Total Mobile, y byddai hyn yn sicrhau bod Swyddogion Tai mewn sefyllfa well i gefnogi tenantiaid drwy gael mwy o bresenoldeb yn y ward. Byddai hyn hefyd yn eu cynorthwyo i nodi anghenion cymorth yn gynharach a chyfeirio tenantiaid at asiantaethau cymorth lle bo'n briodol.

Cafodd yr argymhellion, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson a'u heilio gan y Cynghorydd Kevin Rush.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r lefelau o gynnydd a hyder o ran cyflawniadau'r blaenoriaethau o fewn Cynllun y Cyngor 2022/23;

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi perfformiad cyffredinol yn erbyn dangosyddion / mesurau perfformiad Cynllun y Cyngor 2022/23: a

(c) Bod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd drwy'r eglurhad a roddwyd ar gyfer y meysydd hynny sy'n tangyflawni.

## 27. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 12.08 p.m.)

………………………………………….

**Y Cadeirydd**